# CABINET

Dydd Llun, 31 Ionawr 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J. Tremlett (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Davies, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths a D.M. Jenkins

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd D.M. Cundy a D. Price

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
N. Daniel, Pennaeth Gwasanaethau TGCh; Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cynllunio
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr
R. Griffiths, Head of Place and Sustainability
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata
L Morris, Uwch Swyddog Y Wasg
C.S. Griffiths, Rheolwr Datblygu'r Gymraeg
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol
K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 11.05 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd E. Dole.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| C. A. Davies | **6 -** Adroddiad 2018/19 Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu - Addysg a Gwasanaethau Plant - Adolygiad o'r Ddarpariaeth Bresennol ar gyfer Addysg y Blynyddoedd Cynnar, Gofal | Personol - gweithredu meithrinfa i blant. |

| | | |
|---|---|---|
| | Plant a Chyfleoedd Chwarae.<br>**8** - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 | |

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y 17EG IONAWR 2022**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2022 yn gofnod cywir.**

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. ADRODDIAD GRWP GORCHWYL A GORFFEN Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT 2018/19- ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH BRESENNOL AR GYFER ADDYSG BLYNYDDOEDD CYNNAR, GOFAL PLANT A CHYFLEOEDD CHWARAE.**

[NODER: Roedd y Cynghorydd C. A. Davies wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a pharhaodd yn y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod]

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i'r Adroddiad Argymhellion, a gyflwynwyd gan Gadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant, ynghylch yr adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer Addysg y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chyfleoedd Chwarae.

Nodwyd bod y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant, yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth 2018, wedi cytuno i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chyfleoedd chwarae. Lluniodd y Grŵp yr argymhellion sydd yn yr adroddiad ar ôl ystyried yr ystod o dystiolaeth oedd dan sylw mewn cyfres o gyfarfodydd rhwng Mai 2018 a Chwefror 2019. Cyflwynwyd yr adroddiad a'r argymhellion i Aelodau'r Cabinet ar 7 Hydref 2019, ond gofynnodd yr Aelodau am ragor o fanylion ynghylch y goblygiadau o ran cyllid, polisi ac ati. Ar 19 Ebrill 2021 darparwyd diweddariad i'w ystyried. Cam gweithredu o'r cyfarfod hwnnw oedd datblygu papur ar wahân yn cynnwys rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r adolygiad o'r trefniadau derbyn i ysgolion.

Cwmpas a nodau'r Adolygiad Gorchwyl a Gorffen oedd:

1. Adolygu darpariaeth y Cyfnod Sylfaen
2. Adolygu safon y ddarpariaeth
3. Adolygu'r ddarpariaeth o gyfleoedd chwarae
4. Adolygu'r ddarpariaeth o ofal plant
5. Y Cynnig Gofal Plant 30 awr

6. Polisi Derbyniadau Ysgolion Sir Gaerfyrddin

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant wybod i'r Cabinet fod Llywodraeth Cymru, yn ystod yr adolygiad, wedi cyhoeddi y byddai Cynnig Gofal Plant Cymru gyfan i blant 3 a 4 oed yn cael ei gyflwyno ledled Sir Gaerfyrddin o fis Ionawr 2019. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac mae'r argymhellion a wnaed yn adlewyrchu hyn.

Cadarnhaodd y swyddogion, pe byddai'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo, y byddai cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn yr haf a byddai ymgynghoriad ynghylch y polisi diwygiedig yn cael ei gynnal yn yr hydref.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Adroddiad Argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant ynghylch adolygu Polisi Derbyniadau Addysg Sir Gaerfyrddin.**

## 7. STRATEGAETH 10 MLYNEDD YR ADRAN ADDYSG

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i Strategaeth 10 mlynedd yr Adran Addysg. Mae'r strategaeth hon yn nodi'r weledigaeth ar gyfer y rôl y byddai'r gwasanaethau addysg yn ei chwarae o ran datblygu cymunedau bywiog ac economi lewyrchus yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.

Nodwyd bod y Strategaeth yn darparu'r canlynol:

- trosolwg o feddwl strategol dros y 10 mlynedd nesaf.
- gweledigaeth ar y cyd, datganiadau cenhadaeth a blaenoriaethau.
- cyfeiriad sicr.
- cipolwg ar yr edau euraidd o ran polisïau rhyngwladol, cenedlaethol a chorfforaethol
- y prosesau a'r dogfennau Cynllunio Busnes wedi'u rhoi mewn cyd-destun.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ynghylch y canlynol**:

**7.1 cytuno bod y Strategaeth a'r 20 Darn Diben yn bodloni'r amcanion y cytunwyd arnynt a dyheadau'r Cabinet ar gyfer y Gwasanaethau Addysg.**
**7.2 cytuno ynghylch fersiwn derfynol Strategaeth 10 mlynedd yr Adran Addysg i'w lansio a'i chyhoeddi.**

## 8. 2022-2032 CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

[NODER: Roedd y Cynghorydd C. A. Davies wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a pharhaodd yn y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod]

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin, a phrif bwrpas y cynllun yw manylu ar sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni canlyniadau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn eu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Nod y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yw hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy’n medru defnyddio’r Gymraeg gyda’u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn Sir Gaerfyrddin yn gyfrwng allweddol ar gyfer creu system gynllunio well ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn darparu dull i Lywodraeth Cymru fonitro'r ffordd y mae'r Awdurdod yn ymateb ac yn cyfrannu at weithredu amcanion y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Plant fod y broses ymgynghori wedi'i chynnal dros gyfnod o 8 wythnos rhwng 4 Hydref a 29 Tachwedd 2021. Cafwyd 862 o sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghori ffurfiol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.**

## 9. STRATEGAETH YNNI RANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i Strategaeth Ynni Ranbarthol De-orllewin Cymru. Nodwyd bod y strategaeth wedi'i chomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'i chefnogi gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Cafodd ei datblygu gan Grŵp Craidd Ynni De-orllewin Cymru, sef is-grŵp fforwm Cyfarwyddwyr Rhanbarthol y pedwar awdurdod lleol yn ne-orllewin Cymru, gyda chymorth ychwanegol gan Banel Cynghori a rhanddeiliaid rhanbarthol.

Amcan cyffredinol y strategaeth oedd datblygu llwybr strategol sy'n nodi ymyriadau allweddol i gyflawni uchelgeisiau'r rhanbarth ar gyfer datgarboneiddio ei system ynni. Roedd senario ar gyfer Gweledigaeth Ynni wedi'i fodelu i nodi llwybr datgarboneiddio posibl a fyddai'n rhoi'r rhanbarth ar y trywydd iawn i sicrhau system ynni sero-net erbyn 2050.

Nodwyd bod chwe blaenoriaeth ranbarthol yn cefnogi'r weledigaeth:

- Effeithlonrwydd ynni
- Cynhyrchu trydan
- Systemau clyfar a hyblyg
- Datgarboneiddio gwres
- Datgarboneiddio trafnidiaeth
- Cydgysylltu rhanbarthol

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau a Materion Gwledig y byddai'n dymuno gweld y logos sy'n hyrwyddo'r pedwar Awdurdod Lleol sy'n rhan o'r strategaeth yn fwy amlwg yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** :

**9.1 mabwysiadu Strategaeth Ynni Ranbarthol De-orllewin Cymru,**
**9.2 dirprwyo awdurdod i Swyddogion wneud addasiadau teipio neu ffeithiol yn ôl yr angen, i wella eglurder a chywirdeb Strategaeth Ynni Ranbarthol De-orllewin Cymru.**

## 10. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

## 11. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 12. CRONFA CODI'R GWASTAD LLYWODRAETH Y DU - CANOL TREF CAERFYRDDIN

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 11 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am fusnes a materion ariannol penodol. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad uchod o dan Ddeddf 1972 mewn perthynas â'r adroddiad hwn, yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn tanseilio sefyllfa'r Cyngor mewn trafodaethau dilynol ac yn effeithio'n andwyol ar y pwrs cyhoeddus.**

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i adroddiad a oedd yn manylu ar wybodaeth mewn perthynas â phrosiect strategol allweddol a fyddai'n defnyddio eiddo segur yng nghanol tref Caerfyrddin unwaith eto.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ar y canlynol:**

**12.1 cymeradwyo'r bwriad i brynu'r eiddo yng nghanol tref Caerfyrddin a nodwyd yn yr adroddiad ar y telerau y cytunwyd arnynt dros dro.**

**12.2. dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Adfywio a'r Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith, mewn ymgynghoriad ag Aelodau'r Cabinet dros Adfywio ac Adnoddau, i gwblhau'r telerau prynu a chwblhau'r pryniant.**

**12.3 dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Adfywio a'r Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith, mewn ymgynghoriad ag Aelodau'r Cabinet dros Adfywio ac Adnoddau, i ddyfarnu cam un y broses adeiladu (Penodi contractwr llwyddiannus a'u tîm dylunio cysylltiedig) a fydd yn cynnwys cynnal yr holl arolygon angenrheidiol, cael adroddiadau ac ymchwiliadau gofynnol a datblygu'r dyluniad cychwynnol i gael caniatâd cynllunio a chymeradwyo rheoliadau adeiladu.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | ____________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |